

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bydd cyfarfod o'r Cabinet yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y
Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

FORE IAU 23^{ain} GORFFENNAF, 2015 am 10.30am.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 21 Gorffennaf 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd yngŵn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

RHESTR O'R PYNCIAU I'W TRAFOD

Datganiad Buddiant:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

1. AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD, YSGOLION UWCHRADD A DARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH YNG NGHWM RHONDDA A THONYREFAIL: NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am ganlyniad yr hysbysiadau statudol a gafodd eu cyhoeddi'n ddiweddar mewn perthynas â'r cynigion i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r Chweched Dosbarth yng Nghwm Rhondda a Thonyrefail.

Tudalennau 1 - 22

2. DEFNYDDIO CRONFA GYMDEITHASOL EWROP I GEFNOGI CYFLOGAETH A CHYRHAEDDIAD YMHLITH POBL IFAINC YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n amlinellu'r trefniadau sydd ohoni i gefnogi pobl ifanc 16 - 24 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a'r cyfle posibl i ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth bresennol trwy fanteisio ar gyllid Ewrop trwy gymryd rhan yn rhaglen ranbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop o'r enw `Inspire to Work` .

Tudalennau 23 - 34

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, ynghyd â chais i'r Cabinet gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â gofynion statudol.

Tudalennau 35 - 60

4. STRATEGAETH AR GYFER HWYLUSO DATBLYGU TAI LLEOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor sy'n amlinellu polisi ar gyfer cyflwyno parseli o dir ar gyfer hwyluso datblygu tai lleol.

Tudalennau 61 - 76

5. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

6. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2013/18: NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Tudalennau 77 - 100

7. **MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. Gwynne', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

